Carers UK, cwni cofrestredig cyfyngedig trwy warrant  
rhif 864097  
Rhif elusen gofrestrdig 246329

Gan obeithio bod manylion y nwyddau a'r  
gwasanaethau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr hwn  
yn gywir, ni all CGC yng Nghymru argemell eu  
defnyddio.

Paratowyd y cylchlythyr hwn gyda chymorth Cynulliad  
Genedlaethol Cymru.

Produced by Carrick for Carers Wales © Carers UK  
2008

Carersline: 0808 808 7777

# Cyflawni newid i gynhalwyr

**Ar ddydd Mercher 24 Hydref 2007, cynhaliodd Cynhalwyr Cymru gynhadledd bolisi lwyddiannus iawn a ddaeth â 120 o bobl o gefndiroedd amrywiol ynghyd, gan gynnwys cynhalwyr, gwneuthurwyr polisi, darparwyr gwasanaeth o'r sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr dros gynhalwyr.**



*James Lockwood & Delyth Lloyd-Williams*

Cafodd y gynulleidfa glywed profiadau James Lockwood, cynhaliwr ifanc, a Delyth Lloyd-Williams, cynhaliwr sy'n rhiant.

Siaradodd y ddau yn

huawdl ac yn onest am eu profiadau gofalu eu hunain a'r hyn roedden nhw'n meddwl oedd angen ei newid er mwyn eu cefnogi.



*Yr Athro Luke Clements*

Siaradodd yr Athro Luke Clements am y gyfraith mewn perthynas â chynhalwyr, a siaradodd y Fonesig Denise Platt DBE, Cadeirydd y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, am sut roedd angen i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol newid er mwyn diwallu anghenion mwy o bobl a darparu gofal o ansawdd gwell i ddiwallu anghenion gwirioneddol teuluoedd.



*Dame Denise Platt*

Canolbwynt y prynhawn oedd beth sydd angen ei newid ar

gyfer cynhalwyr mewn gwaith, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Shirley Bowen, Cyfarwyddwr Canolfan Cynhalwyr Abertawe, am gymryd lle'r cynhaliwr gwreiddiol, Pat McCarthy a oedd yn sâl, ar fyr rybudd. Siaradodd am yr anawsterau y mae wedi eu hwynebu yn y gorffennol wrth geisio rheoli a chyfuno ei gwaith a'i rôl gofalu. Esboniodd hefyd sut mae'r Ganolfan Cynhalwyr yn cefnogi ei staff ei hunan.

Siaradodd Angharad Davies, Rheolwr Materion Cyhoeddus gyda BT, am yr achos busnes dros gefnogi cynhalwyr a rhoddodd enghreifftiau o arferion da, megis gweithio'n hyblyg a gweithio o gartref, a oedd yn diwallu anghenion cynhalwyr ac yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd.

Siaradodd Imelda Redmond, Prif Weithredwr Carers UK, am waith ymgyrchu'r sefydliad, y Fargen Newydd i Gynhalwyr a beth ddylai'r camau nesaf fod i weithredu newid.

## Rhai sylwadau

"Diwrnod gwerth chweil"

"Wedi'i drefnu'n dda gyda siaradwyr ardderchog"

"Mae'n dangos pa mor bell i ffwrdd rydym o gyflawni gwasanaeth gwirioneddol di-fwlch rhwng y sector iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau gwirfoddol."

"Roedd y siaradwyr yn dda iawn, yn arbennig y cynhalwyr"

"Diwrnod addysgiadol a diddorol – digon i feddwl amdano, digon i siarad amdano a digonedd o waith i'w wneud!!"

"Roedd areithiau'r ddau gynhaliwr yn drawiadol tu hwnt a chrëwyd darlun clir o'r math o fywyd sydd gan gynhalwyr. Daliwch ymlaen â'r ymgyrch"

"Roedd yn ddiddorol ac yn dorcalonnus"

"Fel cyflogwr ac ymddiriedolwr 3ydd sector, byddaf yn mynd â'r wybodaeth yn ôl gyda mi"

"Digonedd i gymryd sylw ohono ac i barhau i weithredu yn ei gylch"

"Da iawn James!!"


"Roedd y cynhalwyr a siaradodd yn ffantastig"

"Byddai'n well gennyf fod wedi cael siaradwr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn lle'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, ond roedd y Fonesig Denise Platt yn siaradwraig ardderchog"

# Diwrnod Hawliau Cynhalwyr 7 Rhagfyr 2007



**Bu 253 o grŵpiau, y nifer mwyaf erioed, yn cymryd rhan mewn digwyddiadau am diwrnod hawllaw Cynhalwgr 2007 ledled Cymru - cynnydd o 188 ar y llynedd.**



Thema Diwrnod Hawliau Cynhalwyr oedd Costau Gofal a lansiodd Carers UK adroddiad newydd, "Out of pocket," sy'n dangos fod cynhalwyr Cymru ar eu colled o tua £10,000 y flwyddyn ar gyfartaledd yn sgil rhoi gorau i'w swydd neu gael eu gorfodi i weithio llai o oriau. Ar hyn o bryd mae un o bob pum cynhaliwr yn rhoi'r gorau i'w waith er mwyn darparu gofal ac mae llawer mwy yn cwtogi eu horiau neu'n

gwrthod cyfleoedd i gael dyrchafiad yn y gwaith. Mae incwm is yn golygu ei bod hi'n fwy anodd cael dau ben llinyn ynghyd, mae'n cynyddu'r risg o allgau cymdeithasol ymysg cynhalwyr a'u teuluoedd, yn arbennig plant, ac maent yn llai tebygol o allu fforddio gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Hefyd, mae cynhalwyr yn llai tebygol o allu cynilo ar gyfer eu hymddeoliad neu ar gyfer eu hanghenion gofal eu hunain yn y dyfodol.

Ym mis Ionawr 2007, cynhaliodd Carers UK arolwg o bron i 3000 o gynhalwyr i geisio cyfrif cost ariannol gofalu fel rhan o'r ymgyrch Real Change not Short Change. Mae'r dystiolaeth a geir yn yr adroddiad wedi'i seilio ar ystadegau o'r un arolwg sydd heb eu cyhoeddi o'r blaen ac mae'n dangos yr enillion y mae cynhalwyr yn eu colli oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr faint o enillion yr oeddent wedi eu colli y llynedd oherwydd gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith, lleihau eu horiau neu dderbyn swydd ar lefel is, y cynhalwyr oedd yn darparu'r gofal mwyaf, dros 50 awrn oedd mwyaf ar eu colled. Ar gyfartaledd, roedd cynhalwyr ar eu colled o £11,370 yn Lloegr, £11,291 yn yr Alban, £10,192 yng Nghymru a £8,215 yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos ffigurau gyfer gwahanol sefyllfaoedd gofalu yn ôl oedran cynhalwyr, sawl awr o ofal y maent yn eu darparu a nifer y cynhalwyr sy'n gweithio ar gyfer pob awdurdod lleol a'r cymorth sydd ei angen ar gynhalwyr sy'n gweithio. Gellir lawrlwytho'r adroddiad o'n gwefan yn [www.carerswales.org](http://www.carerswales.org). Os oes angen copi papur arnoch, ffoniwch y swyddfa ar 029 2081 1370.



Jane Sanders and Family

## Jane Sanders

"Rwy'n gynhaliwr llawn amser i Ben, fy mab 22 oed sydd â Syndrom Down, Rhys, 20 oed sydd â diabetes ac Eifion y g?r sydd â nam ar ei olwg, diabetes ac anabledau eraill. Mae gennyf ferch

hefyd, sef Katie.

Hyd at 1995, gyda chymorth fy mam roeddwn yn gweithio fel nyrs restredig, ond bu farw fy mam. Cyn hynny, nid oedd angen cymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol arnom ac roedden ni'n ymdopi'n dda fel teulu, ond newidiodd pethau dros nos. Roeddwn yn gweithio mewn ysbyty bach lle'r oedd pawb yn gwybod am fy amgylchiadau. Roedd fy nghydweithwyr yn gefnogol iawn ond nid felly'r rheolwyr ac o dipyn i beth, oherwydd eu diffyg hyblygrwydd a diffyg dealltwriaeth doedd gen i ddim dewis ond ymddiswyddo. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ein sefyllfa ariannol a'm pensiwn yn y dyfodol ac mae gennym ddyled ariannol fawr na allwn ei dalu'n ôl. Pe bai fy nghyflogwr wedi bod yn fwy cefnogol a gwasanaethau cymdeithasol wedi darparu'r cymorth priodol gallwn fod wedi parhau i weithio a byddai ein sefyllfa'n wahanol iawn heddiw."

## Tim Heaps - y Gorllewin

"Ym mis Medi 2004 rhoddais y gorau i'm swydd fel Rheolwr Credyd Masnachol mewn cwmni telathrebu yn Caterham a symud i Gymru i ofalu am fy mam, Rhoda Heaps, sy'n 84 oed. Mae ei hiechyd yn bur wael ac ni all fyw nac ymdopi ar ei phen ei hun yn mewn pentref bach yn Sir Benfro bellach.

Roeddwn yn ennill dros £25,000 y flwyddyn cyn rhoi'r gorau i'm swydd. Bellach rwy'n hawlio Lwfans Gofalwr ac yn gweithio'n rhan-amser. Mae fy ngwaith yn bwysig i mi oherwydd ei fod yn gyfle i gymdeithasu ac ni fyddwn ar fy ngholled yn ariannol pe bawn i'n rhoi'r gorau i'm swydd. Ond byddai bwch yn fy nghyflogaeth. Pe bawn i'n gweithio mwy o oriau ac yn ennill ond £1 dros y trothwy enillion cyfredol o £95 buaswn yn colli rhai budd-daliadau fel y Lwfans Gofalwr ac yn gorfod talu'r dreth gyngor.

Beth am y dyfodol? Does dim llawer o ddyfodol oherwydd rwyf wedi fy nghofrestru'n anabl ac rwy'n 47 oed. Prin yw'r cyfleoedd gwaith ac mae'r ardal hon wedi ei dynodi'n un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

I bob golwg mae'r system yn cosbi cynhalwyr ond rydyn ni'n arbed arian sylweddol i'r economi. Nid wy'n gwarafun gofalu am fy mam ond rwy'n anhapus â chael fy nhrin yn eilradd. Mae Llywodraeth y Cynulliad a San Steffan yn cymryd ein gwaith yn ganiataol yn fy marn i. Nid mater o wleidyddiaeth yw hyn, ond mater o geisio byw."

# Cynhalwyr yn Arbed £87 Biliwn i'r DU

**Ym mis Medi, cynhaliwyd gwaith ymchwil newydd gan Carers UK "Valuing Carers - Calculating the value of unpaid care", sy'n dangos fod gwerth y cymorth di-dâl a ddarperir gan gynhalwyr y DU yn £87 biliwn y flwyddyn bellach. Cafwyd y cynnydd uchaf yng Nghymru sef 62% yng ngwerth y gofal di-dâl o'i gymharu â 52% ar gyfer gweddill y DU. Gwerth y cymorth yng Nghymru yw £5.69 biliwn y flwyddyn.**

Gellir priodoli'r cynnydd yng ngwerth cymorth cynhalwyr i dri pheth.

1. Mae nifer y cynhalwyr sy'n darparu gofal sylweddol wedi codi oherwydd nad yw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu ateb y galw.
2. Er bod y ddarpariaeth gofal yn y gymuned wedi cynyddu, mae'r gwasanaethau statudol yn ei ddarparu i lai o bobl oherwydd bod eu hanghenion yn fwyfwy cymhleth.
3. Mae costau darparu gofal yn lle rhywun arall wedi cynyddu.

Mae Carers UK wedi amcangyfrif y bydd angen tua 60% yn fwy o gynhalwyr erbyn 2037, sef 3.4 miliwn yn fwy o gynhalwyr. Mae'r angen am ofal ar gynydd oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a'r rhagolygon y bydd pobl yn dioddef o iechyd gwael am amser hwy ac felly angen mwy o ofal. Ar yr un pryd bydd nifer yr aelodau'r teulu neu ffrindiau sy'n gallu darparu'r gofal di-dâl hwn yn debygol o leihau.

Mae'r cynnydd aruthrol yng ngwerth cymorth cynhalwyr yn rhybudd clir i wleidyddion a gwneuthurwyr polisi yng Nghymru bod angen iddynt weithredu ar frys i wella amrywiaeth a safon y gwasanaethau a sicrhau nad yw pobl anabl a chynhalwyr yn cael eu rhwystro rhag cael gwasanaethau angenrheidiol am na allant eu fforddio neu nad yw amrywiaeth y gwasanaethau ar gael neu fod eu safon yn annerbyniol.

Gellir lawrlwytho copi o'r adroddiad llawn o'n gwefan yn <http://www.carersuk.org/Policyandpractice/Research>. Os nad oes gennych fynediad i'r we ffoniwch Cynhalwyr Cymru ar 029 2081 1370.

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ymgyrchu



*Protesting outside Parliament*

Ar 7 Tachwedd 2007, roedd dau gynhaliwr o Gymru'n rhan o grŵp a oedd yn cynrychioli'r chwe miliwn o gynhalwyr yn y DU a fu'n dosbarthu'r cardiau post "Real change, not short change" i 10 Stryd Downing. Anfonodd dros 8000 o gynhalwyr gardiau post at Gordon Brown.

Nod yr ymgyrch yw diwygio'r system fudd-daliadau er mwyn rhoi safon byw derbyniol i gynhalwyr a'u galluogi i weithio os ydynt yn dymuno. Roedd y cardiau post yn cynnwys negeseuon clir gan gynhalwyr a bydd yn anfon datganiad clir am y newid sylfaenol sydd ei angen yn y Llywodraeth. Mae hwn yn bwysig ar adeg pan fo Gordon Brown wedi rhoi blaenoriaeth i gynhalwyr trwy greu Comisiwn Sefydlog ar gynhalwyr ac mae'n adolygu'r Strategaeth Genedlaethol i Ofalwyr. Diolch i bawb a gwblhaodd y cardiau post.



*Imelda Redmond Prif Weithredwr, Cynhalwyr Du (canol) gyda Dave Burgess (chwith) a Dai Rees (dde) a dau cynhalwyr eraill*

# Ydych chi'n talu gormod o'r Dreth Gyngor?

Mae'n rhaid talu treth gyngor ar y rhan fwyaf o adeiladau, ond mae yna rai eithriadau (lle nad oes angen i chi dalu unrhyw beth) ac mae'n bosibl y gallai eraill fod yn gymwys i gael gostyngiad.

Mae'r eithriadau'n cynnwys adeiladau sydd:

Yn wag am fod y preswlydd:

- yn yr ysbyty;
- mewn cartref preswyl;
- mewn cartref nyrsio;
- yn byw rhywle arall er mwyn cael gofal personol;
- yn gynhaliwr ac yn byw yng nghartref rhywun arall er mwyn darparu gofal;
- yn rhywun sydd â "nam difrifol ar y meddwl" megis demensia.

Felly os ydych chi'n aros gyda rhywun er mwyn gofalu amdano a bod eich tŷ yn wag, ni fydd angen i chi dalu Treth Cyngor ar eich cartref. Yn yr un modd, os oes rhywun yn aros gyda chi fel y gallwch chi ofalu amdano, ni fydd angen iddo dalu'r Dreth Gyngor.

## Gostyngiadau ac ad-daliadau

Os nad yw'r adeilad yr ydych chi'n byw ynddo wedi'i eithrio o'r Dreth Gyngor, efallai gallwch chi gael gostyngiad. Wrth bennu cyfanswm y dreth gyngor ar gyfer eiddo, tybir bod o leiaf ddau oedolyn yn byw yno. Os mai dim ond un sy'n byw yno, gall yr unigolyn hwnnw gael 25% o ostyngiad. Nid yw pobl mewn grwpiau arbennig, gan gynnwys cynhalwyr, yn cael eu hystyried wrth edrych ar nifer yr oedolion sy'n byw mewn adeilad.

Nid yw cynhalwyr, ymhlith pobl eraill, yn cael eu hystyried os ydynt yn byw gydag, ac yn gofalu am rywun anabl sydd ddim yn wraig, yn ŵr iddynt nac yn cyd-fyw gyda nhw nac yn blentyn dan 18 oed. Rhaid bod yr unigolyn anabl yn derbyn cyfradd uwch y Lwfans Gweini neu gydran gofal Lwfans Byw i'r Anabl a rhaid bod y cynhaliwr yn darparu o leiaf 35 awr o ofal yr wythnos ar gyfartaledd. Nid oes rhaid i'r cynhaliwr fod yn derbyn y Lwfans Cynhalwyr. Gall mwy nag un unigolyn gael ei ystyried yn gynhaliwr.

Rhaid i'r unigolyn sy'n gyfrifol am dalu'r Treth Gyngor wneud cais am yr ad-daliad, nid yr unigolyn nad yw'n cael ei ystyried.

Mae yna ostyngiadau eraill yn berthnasol i eiddo sy'n gartref i rywun anabl.

Mae yna ddau gynllun gostyngiad:

- 1. Cynllun gostyngiad materol**
- 2. Cynllun gostyngiad anabled**

Mae yna ad-daliadau ar gael i unigolion ar incymau isel a budd-daliadau eraill y dreth gyngor y gallech chi eu hawlio o bosibl. Gallwch chi wneud cais am ad-daliad llawn os ydych chi'n derbyn cymhorthdal incwm.

Bwriedir yr erthygl fer hon fel canllaw cyffredinol yn unig ac ni ddylai gael ei thrin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Os ydych chi'n credu y gallech chi fod yn gymwys i gael gostyngiad ar y Dreth Gyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol. Mae gan Gynhalwyr Cymru lyfrynnau am y Dreth Gyngor hefyd. Ffoniwch ni ar 029 2081 1370 i gael copi rhad ac am ddim.

**Carol Harrison - Llandudno**

"Mae fy ngŵr, Barrie, a minnau wedi bod yn gofalu am ein merch, Dawn, am 42 o flynyddoedd. Fe symudon ni i Gymru'n ddiweddar o Swydd Amwythig a gwnaethom gais i'r awdurdod lleol am ostyngiad ar y Dreth Gyngor. Cytunodd yr awdurdod i roi 25% o ostyngiad i ni. Gan fy mod wedi cael help ganddynt o'r blaen, ffoniais Gynhalwyr Cymru a gofynnais a ddylem gael cyfradd uwch nawr gan fod Barrie'n rhannu'r gwaith o ofalu am Dawn gyda mi. Wedi i mi gael y wybodaeth, heriais yr awdurdod. Daeth swyddog o'r awdurdod lleol i'n gweld a chytunodd y dylem gael gostyngiad o 50%. Wedi iddo ddod i'n cartref, cytunodd ein bod yn gymwys am Gynllun Gostyngiad Materol hefyd gan fod Dawn yn defnyddio ystafell ychwanegol oherwydd ei hanabledd, ac felly gostyngwyd band y Dreth Gyngor ein heiddo. Diolch i Gynhalwyr Cymru, cawsom ad-daliad y Dreth Gyngor hefyd".

**Wynn Rees – Castell-nedd Port Talbot**

"Rwy'n gofalu am fy mam oeddrannus ac eiddil ei meddwl sy'n methu byw'n annibynnol bellach. Aeth fy nhad i mewn i'r ysbyty ym mis Hydref 2006 a bu farw ym mis Rhagfyr 2006.

Gadewais fy fflat yn Abertawe a symudais i fyw at mam i ofalu amdani. Ffoniais Cynhalwyr Cymru am fy mod yn poeni am orfod talu'r Dreth Gyngor ar fy fflat gwag. Cefais wybodaeth dros y ffôn a gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post a ddefnyddiais i gysylltu â'r Cyngor. Mae fy Nhreth Gyngor yn Abertawe wedi cael ei atal dros dro, o'r amser y symudais i fyw gyda mam i'r amser pan fydd fy amgylchiadau'n newid. Cefais ad-daliad o 3 mis hefyd gan Abertawe am y Dreth Gyngor roeddwn i wedi ei thalu ers gadael y fflat.

Nawr fy mod yn byw yng Nghastell-nedd gyda mam a bod gennyf y wybodaeth berthnasol, cysylltais ag adran y Dreth Gyngor Castell-nedd Port Talbot a chanfod nad oedd angen i mam dalu unrhyw dreth cyngor ers i'n nhad fynd i'r ysbyty am ei bod yn eiddil ei meddwl ac felly nid yw'n cyfrif at ddibenion cyfrifo'r Dreth Gyngor. Ers i mi symud, rydym yn cael 50% o ostyngiad ar bil y Dreth Gyngor gan fod y ddau ohonom yn cael ein diystyru wrth gyfrifo cyfanswm y dreth. I goroni'r cwbl, cawsom ad-daliad o £1143 hefyd. Rwy'n ddiolchgar i Gynhalwyr Cymru am eu help a'u gwybodaeth".

## Dal ati i Gyfrif Cynhalwyr

**Am y tro cyntaf erioed, roedd Cyfrifiad 2001 yn cynnwys cwestiwn am gynhalwyr. Darparodd hyn wybodaeth ddibynadwy nad oedd i gael yn flaenorol am gynhalwyr yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'n bosiblwydd gwirioneddol na fydd y cwestiwn am Carers UK yn ymgyrchu er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd.**

Darparodd y ffigurau cynhalwyr yn y Cyfrifiad diwethaf wybodaeth werthfawr a alluogodd awdurdodau lleol i ddatblygu gwasanaethau gwell i gynhalwyr a'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt. Heb y wybodaeth hon, ni fydd gan awdurdodau lleol na chyrrff iechyd ffynhonnell o wybodaeth ddibynadwy er mwyn cynllunio gwasanaethau'n gywir yn y dyfodol.

Mae'r cwestiwn am gynhalwyr yn y fantol am fod Swyddfa'r Cyfrifiad wedi penderfynu ei bod am gyfyngu maint y cyfrifiad er mwyn annog mwy o bobl i'w gwblhau. Bydd penderfynu ar ba gwestiynau i'w cynnwys yn broses hir a fydd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a thrafod gyda'r Llywodraeth.

Codwyd y mater yn ddiweddar mewn trafodaeth yn

Nhŷ'r Arglwyddi ac mae grwpiau lleol o gynhalwyr ar hyd a lled y wlad yn dechrau cymryd rhan yn yr ymgyrch. Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod faint o gynhalwyr sydd yn y DU. Nid yw'n rhy hwyr i ysgrifennu at Ivan Lewis, y Gweinidog dros Ofalwyr a Gofal Cymdeithasol yn San Steffan, ac i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gofyn iddynt ddal ati i Gyfrif Cynhalwyr. Yn ystod trafodaethau yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae Gweinidogion wedi bod o blaid cadw'r cwestiwn am gynhalwyr, ond rhaid i ni barhau i roi pwysau arnynt er mwyn sicrhau eu cefnogaeth.

**Beth allwch chi ei wneud**

Ysgrifennwch lythyr at eich AS ac AC lleol yn esbonio pam eich bod yn credu y dylai cynhalwyr gael eu cyfrif yn y cyfrifiad a gofynnwch iddynt am eu cefnogaeth. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein hymgyrch a sut i gymryd rhan ar ein gwefan yn [www.carersuk.org/newsandcapmagns/keepcountingcarers/whatyoucando](http://www.carersuk.org/newsandcapmagns/keepcountingcarers/whatyoucando). Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwyd, ffoniwch y swyddfa ar 029 2081 1370 a byddwn ni'n falch o anfon gwybodaeth a llythyr enghreifftiol atoch.

# ACE National

## Gweithredu Dros Gynhalwyr a Chyflogaeth

**Daeth menter hynod lwyddiannus sydd wedi gwella bywyd cynhalwyr sy'n ceisio cyfuno gwaith cyflogedig gyda'u cyfrifoldebau gofalu i ben ar 31 Rhagfyr 2007.**

Prosiect cydweithredol oedd ACE National (Gweithredu dros Gynhalwyr a Chyflogaeth) a oedd yn cael ei arwain gan Gynhalwyr y DU. Roedd partneriaid y DU yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, cyflogwyr, awdurdodau lleol, cyrff iechyd, undebau llafur, cynhalwyr a mudiadau i ofalwyr, gan gynnwys Cynhalwyr Cymru. Bu partneriaid o wledydd Ewropeaidd eraill fel yr Eidal, yr Iseldiroedd, Estonia a Latfia yn cymryd rhan yn y fenter hefyd. Noddwyd y prosiect gan raglen Menter Gymunedol EQUAL Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Amcan y prosiect oedd sicrhau newidiadau hirdymor i gynhalwyr mewn gwaith. Roedd rhan gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar helpu cynhalwyr i ddychwelyd i fyd gwaith ac annog cyflogwyr i roi mwy o gefnogaeth iddynt yn y gweithle. Ail ran y prosiect oedd gwella'r gwasanaethau gofalu fel eu bod yn diwallu anghenion y cynhalwyr hynny a oedd eisiau parhau i weithio neu ddychwelyd i fyd gwaith.

Cafodd prosiect ACE lawer mwy o lwyddiant na'r disgwyl, yn enwedig o ran newidiadau polisi. Dyma rai o'r cyflawniadau allweddol:

- Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004
- Partneriaeth rhwng busnesau ac ACE National, sydd wedi hyrwyddo datblygiad polisiâu cefnogi cynhalwyr yn y gweithle.
- Y Ddeddf Gwaith a Theuluoedd i ehangu'r hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg i gynhalwyr. Daeth i rym ym mis Ebrill 2007.
- Y "Fargen Newydd i Gynhalwyr"

Yng Nghymru, aeth Cynhalwyr Cymru ati i herio a dylanwadu ar bolisiâu'r Cynulliad a oedd yn effeithio ar gynhalwyr o oedran gweithio, megis codi tâl am wasanaethau gofalu a gwella ansawdd y gwasanaethau gofalu a darparu mwy ohonynt. Buom yn gweithio gyda chyflogwyr hefyd.

Rydym am weld cynhalwyr yn cael yr un hawl i fywyd cyffredin ag sydd gan bawb arall –incwm teg, cymorth a fydd yn diogelu eu hiechyd a'u lles a mynediad i fyd gwaith, hamdden ac addysg. Felly, er bod prosiect ACE wedi dod i ben, mae cynhalwyr a chyflogaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Gynhalwyr Cymru yn ein brwydr am gydraddoldeb i gynhalwyr.

*Ariennir Partneriaeth Datblygu Gweithredu dros Gynhalwyr a Chyflogaeth (ACE) yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop dan Raglen Menter Gymunedol EQUAL.*

**ACE National**  
action for carers and employment  
led by **CARERS UK**

## Hanes Mudiad y Cynhalwyr

Mae'r awdur Tim Cook wedi ysgrifennu The History of the Carers' Movement sy'n olrhain y digwyddiadau a'r cyflawniadau allweddol dros y 40 mlynedd ddiwethaf. Wedi ei gyhoeddi gan Carers UK, mae'r llyfr hwn yn archwilio tri mater allweddol sydd wedi bod yn ganolog – cynhalwyr ifanc, ei gysylltiad â'r mudiad anabled a swyddogaeth sefydliadau i hanes cynhalwyr y mudiad cyffredinol. Mae'r llyfr yn cloi gyda chipolwg ar effaith datganoli.

Gellir archebu'r llyfr am £10 ar-lein yn [www.carersuk.org](http://www.carersuk.org) neu drwy ffonio 0845 241 0963.



# Profile

## Cangen Caerdydd

**Sefydlwyd Cangen Caerdydd Carers UK yn wreiddiol gan Doreen Mapelson ac Audrey Davey ym 1983 a hon oedd yr unig Gangen yng Nghymru ar y pryd, gyda'r Canghennau eraill yn cael eu sefydlu'n ddiweddarach. Yn ystod y dyddiau cynnar, cymrodd y Gangen ran yn yr ymgyrch dros gael Lwfans Gofal Analluedd i fenywod priod. Dyma rai o'r llwyddiannau eraill dros y blynyddoedd:**

- Cyhoeddi tri argraffiad o'r llyfryn "Helping Gran",
- Ysgrifennu ac actio golygfeydd er mwyn dangos bywydau cynhalwyr i grwpiau, cynadleddau, cyrsiau hyfforddi colegau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol,
- Gyda grant o £5000 o'r loteri, cynhyrchu a gwerthu fideo "A Carers World" a gafodd ei anfon ledled y wlad a thramor gyda phegyn gwybodaeth,
- Ymgyrchu'n weithredol dros y ddwy Ddeddf Cynhalwyr gyntaf a chael cyfarfodydd gydag Aelodau Seneddol
- Ymgyrchu dros sefydlu Cynhalwyr Cymru
- Cefnogi sefydliad Cangen Bro Morgannwg, a rhoi £1000 o bunnau tuag at lansiad y gangen
- Cyn sefydlu'r Cynulliad, roedd ganddi le ar Bwyllgorau'r Swyddfa Gymreig yn sefydlu'r Strategaeth gyntaf i Gynhalwyr yng Nghymru
- Ymateb i bob ymgynghoriad yn ymwneud â chynhalwyr yng Nghymru, ac anfon cynrychiolwyr i ddigwyddiadau ymgynghori
- Cynnal stondin wybodaeth bob mis yn Ysbyty Athrofaol Cymru er mwyn cysylltu â chynhalwyr newydd

Cyflwynwyd yr MBE i Dr Sheila Curran, Cadeirydd cyfredol y Gangen, am ei gwaith gyda chynhalwyr ac epilepsi. Mae'r Gangen yn parhau i ymgyrchu'n frwd dros hawliau cynhalwyr ac mae ganddi tua 80 o aelodau sy'n cwrdd ar yr ail ddydd Iau o bob mis rhwng 7pm-9pm yn Pembroke House yn Nhreganna. Mae croeso i bob cynhaliwr fynychu ac mae'r cyfarfodydd yn amrywio o weithgareddau rhyngweithio cymdeithasol i areithiau gan siaradwyr arbennig.

Mae'r Gangen yn ymwybodol fod y Pwyllgor a'r aelodau'n heneiddio ac roedd pawb wrth eu bodd pan ymunodd Jason Tynan (31 oed) â'r Gangen yn ddiweddar. Mae Jason yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn y gwaith ymgyrchu yn arbennig. Mae wedi bod yn gofalu ers oedd yn 15 ac mae'n hollol argyhoeddedig nad yw cynhalwyr yn cael eu gwerthfawrogi na'u cydnabod yn briodol. Hoffai annog cynhalwyr, yn arbennig y rheiny o oed gwaith, i ymuno ag ef i fod yn weithredol yn y gangen. Fodd bynnag, mae Jason yn sylweddoli bod gan lawer o bobl ymrwymadau gwaith ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu a allai ei gwneud hi'n anodd iddynt fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Gan ystyried hyn, hoffai Jason glywed gan bobl a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan trwy e-bost i ddechrau, gyda'r gobaiith o ddatblygu rhwydwaith o gynhalwyr tebyg yn y gangen. Gellir cysylltu ag ef i ddechrau trwy e-bost yn [jasontynan@yahoo.com](mailto:jasontynan@yahoo.com)



*Doreen Mapelson*



*Dr Sheila Curran MBE*

The Action for Carers and Employment (ACE National) Development Partnership is part funded by the European Social Fund under the EQUAL Community Initiative Programme